# Asesiad drwy gyfrwng y Gymraeg

## Cynnwys

Fformat amgen ar gyfer y polisi Asesiad drwy gyfrwng y Gymraeg .......... 3

Crynodeb o'r polisi .......... 3

Cwmpas .......... 4

Beth mae'r polisi hwn yn eu gynnwys .......... 4

Gwerthoedd Siarter Myfyrwyr y Brifysgol Agored .......... 4

Cyflwyniad .......... 4

Polisi .......... 5

1. Diben .......... 5
2. Egwyddorion y polisi .......... 6
3. Canllawiau myfyrwyr ar gyfer cyflwyno gwaith yn Gymraeg .......... 6

Gweithdrefn .......... 7

4. Cyflwyno ATM/ATM diwedd modiwl nei ADM yn Gymraeg .......... 7
5. Sefyll arholiad yn Gymraeg .......... 8
6. Gweithredu a gorfodi'r weithdrefn .......... 9
7. Diffyg cydymffurfiad .......... 10

8. Grantiau a chefnogaeth ariannol .......... 10

8.1 Gall myfyrwyr neu ddarpar fyfyrwyr gyflwyno ceisiadau am grantiau neu gymorth ariannol drwy gyfrwng y Gymraeg, ac ni chaiff ceisiadau eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a gyflwynir yn Saesneg .......... 10

8.2 Nid oes grantiau na chymorth ariannol ar gael ar hyn o bryd sy'n ymwneud yn benodol ag astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. .......... 10

8.3 Gall myfyrwyr hefyd ddatgan eu bwriad i gyflwyno gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o gais am grant neu gymorth ariannol. .......... 10

Ymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwisiant yn y Brifysgol Agored .......... 11

Adrodd yn Ddiogel .......... 11

| | |
|---|---|
| Version number: 1.4 | Approved by: Director, OU in Wales |
| Effective from: September 2024 | Date for review: March 2025 |

The Open University is incorporated by Royal Charter (RC 000391), an exempt charity in England & Wales and a charity registered in Scotland (SC 038302). The Open University is authorised and regulated by the Financial Conduct Authority in relation to its secondary activity of credit broking.

Rhestr Termau ... 11
Aseiniad diwedd modiwl (ADM (EMA)) ... 11
Aseniad Tiwtor yn Marcio ( ATM (TMA)) ... 12
Aseiniad Tiwtor yn Marcio (ATM (TMA)) diwedd modiwl ... 12
Comisiynydd y Gymraeg ... 12
Hysbysiad Cydymffurfio ... 12
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ... 12
Polisiau asesu ... 13
Safonau'r Gymraeg ... 13
StudentHome ... 13
Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) ... 13
Dogfennaeth Gysylltiedig ... 13
Eglurhad pellach ... 14
Adborth ... 14
Crynodeb o’r newidiadau arwyddocaol ers y fersiwn ddiwethaf ... 14
Polisïau a ddisodlir gan y ddogfen hon ... 15

## Fformat amgen ar gyfer y polisi Asesiad drwy gyfrwng y Gymraeg

Os hoffech y ddogfen bolisi Asesiad trwy Gyfrwng y Gymraeg hon mewn fformat arall, cysylltwch â’r Tîm Cymorth i Fyfyrwyr drwy http://www.open.ac.uk/contact/ (ffôn +44 (0)29 20471170), neu eich Tîm Cymorth i Fyfyrwyr ymroddedig trwy StudentHome os ydych yn fyfyriwr gyda'r Brifysgol Agored ar hyn o bryd.

Gallwch gael mynediad ar fersiwn Saesneg o bolisi Asesiad trwy gyfrwng y Gymraeg: trwy’r ddolen hon: Asesiad trwy gyfrwng y Gymraeg.

Os ydych yn fyfyriwr sy'n byw yng Nghymru, gallwch siarad â chynghorydd cymorth i fyfyrwyr yn Gymraeg ar 029 2047 1170, os dymunwch wneud hynny.

## Crynodeb o’r polisi

Mae'r polisi hwn yn diffinio'r canlynol:

- Sut mae'r Brifysgol Agored yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mewn perthynas â chyflwyno asesiad neu sefyll arholiad yn Gymraeg.
- Y weithdrefn y dylai myfyriwr ei dilyn er mwyn cyflwyno asesiadau neu sefyll arholiadau yn Gymraeg.
- Sut bydd Y Brifysgol Agored yn prosesu asesiadau a gaiff eu cyflwyno neu arholiadau a gaiff eu sefyll yn Gymraeg.
- Dull y Brifysgol Agored o ddarparu grantiau neu gymorth ariannol i fyfyrwyr sy’n dymuno astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Cwmpas

### Beth mae’r polisi hwn yn eu gynnwys

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i unrhyw fyfyriwr Y Brifysgol Agored sydd am gyflwyno aseiniadau a/neu sefyll arholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n berthnasol i bob math o astudio sy’n cael ei gynnig gan y Brifysgol (gan gynnwys modiwlau Mynediad, Israddedig ac Ôl-raddedig (gan gynnwys Ymchwil), Meicrogymwysterau a chyrsiau byr), p'un ai os ydynt yn cael eu hastudio ar wahân neu fel rhan o gymhwyster.

Dylai unrhyw fyfyriwr sydd am gyflwyno aseiniadau yn Gymraeg gyfeirio at Ganllawiau myfyrwyr ar gyfer cyflwyno gwaith yn Gymraeg a dilyn y camau gweithredu angenrheidiol a amlinellir ynddi.

### Gwerthoedd Siarter Myfyrwyr y Brifysgol Agored

Datblygwyd Siarter y Myfyrwyr ar y cyd gan y Brifysgol Agored a Chymdeithas Myfyrwyr y Brifysgol Agored. Mae'n ddatganiad o'n gwerthoedd a rennir a'r ymrwymiadau a wnawn i'n gilydd. Datblygwyd y ddogfen hon gyda gwerthoedd Siarter y Myfyrwyr yn sylfaen iddi.

## Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn esbonio cyfrifoldebau Y Brifysgol Agored fel rhan o'i hysbysiad cydymffurfio a gyflwynwyd gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Hysbysiad Cydymffurfio Y Brifysgol Agored â Safonau'r Gymraeg yn nodi'r canlynol:

> "Rhaid ichi hysbysu eich myfyrwyr y caniateir i unrhyw waith ysgrifenedig a gyflwynir ichi fel rhan o asesiad neu arholiad gael ei gyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd gwaith a gyflwynir ichi yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na gwaith ysgrifenedig a gyflwynir ichi yn Saesneg fel rhan o’r asesiad hwnnw neu’r arholiad hwnnw."
>
> "Rhaid ichi beidio â thrin unrhyw waith ysgrifenedig a gyflwynir ichi yn Gymraeg fel rhan o asesiad neu arholiad yn llai ffafriol na gwaith ysgrifenedig a gyflwynir ichi yn Saesneg fel rhan o’r asesiad hwnnw neu’r arholiad hwnnw."

Os byddwch yn cyflwyno gwaith yn Gymraeg, bydd y Brifysgol yn dilyn unrhyw weithdrefnau cysylltiedig megis cyfieithu, a chaniatau i chi i wirio cywirdeb y cyfieithiad o fewn yr amserlen safonol ar gyfer dychwelyd gwaith wedi'i farcio.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r weithdrefn y dylech ei dilyn er mwyn cyflwyno gwaith yn Gymraeg yn unol â'r safonau cyflenwi gwasanaethau uchod.

Dylech ddefnyddio'r polisi hwn os hoffech gyflwyno gwaith i'w asesu a/neu sefyll arholiadau yn Gymraeg.

# Polisi

## 1. Diben

1.1 Diben y polisi hwn yw amlinellu telerau Hysbysiad Cydymffurfio 'r Brifysgol Agored â Safonau'r Gymraeg mewn perthynas â chyflwyno gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg.

1.2 Nodau'r polisi hwn yw:

- galluogi myfyrwyr i gyflwyno asesiadau a/neu sefyll arholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg
- i ddisgrifio sicrhau nad yw asesiadau /arholiadau a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a gaiff eu cyflwyno trwy gyfrwng y Saesneg
- egluro'r weithdrefn ar gyfer cyflwyno asesiadau neu sefyll arholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg
- trafod dull y Brifysgol Agored o ddarparu grantiau neu gymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n dymuno astudio drwy gyfrwng y Gymraeg (yn unol â safon 100 safonau iaith Gymraeg y Brifysgol Agored).

## 2. Egwyddorion y polisi

2.1 Os ydych chi'n fyfyriwr y Brifysgol Agored, gallwch gyflwyno eich aseiniadau a/neu sefyll eich arholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwch nad yw'n bosibl cwblhau Aseiniad Rhyngweithiol a Gaiff ei Marcio gan Gyfrifiadur (iCMA) yn Gymraeg.

2.2 Ni chaiff unrhyw waith a gyflwynir gennych yn Gymraeg fel rhan o asesiad neu arholiad ei drin yn llai ffafriol na gwaith a gyflwynir yn Saesneg. Caiff eich gwaith ei facio gan siaradwr Cymraeg lle bynnag y bo'n bosibl. Lle nad yw'n bosibl, caiff eich gwaith ei gyfieithu gan wasanaeth cyfieithu proffesiynol a'i farcio, yn Saesneg, gan siaradwr di-Gymraeg.

2.3 Os bydd angen i ni gyfieithu eich gwaith i'r Saesneg er mwyn ei farcio, ni fydd unrhyw oedi wrth gael adborth gan eich tiwtor. Bydd y brifysgol yn talu am unrhyw gostau cyfieithu.

## 3. Canllawiau myfyrwyr ar gyfer cyflwyno gwaith yn Gymraeg

3.1 Mae'r wybodaeth ganlynol yn berthnasol i holl fodiwlau'r Brifysgol Agored, yn amodol ar ofynion penodol pob modiwl, y gellir dod o hyd iddynt ar wefan unigol pob modiwl. O dan amgylchiadau penodol, er enghraifft ar gyfer modiwlau iaith, efallai y bydd gofyn i fyfyrwyr gyflwyno aseiniadau mewn iaith benodol e.e. yr iaith y maent yn ei hastudio, yn hytrach na Saesneg neu Gymraeg.

3.2 Gallwch roi gwybod i'r Brifysgol Agored os hoffech gyflwyno aseiniadau neu sefyll arholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg, naill ai wrth gofrestru drwy gwblhau Ffurflen gofrestru cyfrwng Cymraeg, neu dros y ffôn, neu drwy ddiweddaru eich dewisiadau ar eich tudalen StudentHome ar unrhyw adeg yn ystod eich astudiaethau. Os ydych am sefyll eich arholiad gyda fersiwn Gymraeg o’r papur arholiad, yna mae angen i chi roi gwybod i ni o leiaf 2 fis cyn dyddiad ein harholiad, fel y nodir yn Adran 5.

3.3 Nid yw cyflwyno hysbysiad o'ch dymuniad i gyflwyno gwaith yn Gymraeg yn gyfystyr ag ymrwymiad rhwymol ar eich rhan. Mae'n dal i fod yn bosibl i chi gyflwyno unrhyw un o'ch aseiniadau (neu rannau ohonynt) yn Gymraeg neu Saesneg.

3.4 Mae hefyd yn bosibl i chi gyflwyno gwaith yn Gymraeg heb roi gwybod ymlaen llaw. Fodd bynnag, bydd rhoi gwybod yn gynnar yn ei gwneud hi'n haws i'r Brifysgol Agored ddarparu'r rhan hon o'i gwasanaeth. Sylwch fod angen hysbysiad ymlaen llaw ar gyfer sefyll arholiad yn Gymraeg, fel y manylir yn Adran 5.

3.5 Os byddwch yn rhoi gwybod i'r Brifysgol Agored eich bod yn dymuno cyflwyno'ch holl aseiniadau neu rai ohonynt yn Gymraeg a/neu sefyll arholiad yn Gymraeg, byddwn yn eich rhoi mewn grŵp tiwtor â thiwtor sy'n siarad Cymraeg lle bynnag y bo'n bosibl.

3.6 Byddwn y rhoi gwybod i'ch tiwtor y byddwch yn cyflwyno'ch gwaith i gyd, neu rywfaint ohono, yn Gymraeg.

# Gweithdrefn

## 4. Cyflwyno ATM/ATM diwedd modiwl nei ADM yn Gymraeg

4.1 Os oes gennych diwtor sy'n siarad Cymraeg a all farcio asesiadau a gaiff eu cyflwyno yn Gymraeg, dylech gyflwyno eich Aseiniad Tiwtor yn Marcio (ATM), ATM diwedd modiwl ac Aseiniadau Diwedd Modiwl (ADM) fel yr amlinellir yn y dogfennau canllaw Submitting a Tutor Marked Assignment (TMA) a Submitting an End of Module Assessment (EMA).

Bydd y tiwtor sy'n gyfrifol am wneud hynny yn marcio'r gwaith yn Gymraeg ac yn ei ddychwelyd drwy'r system eATM, yn unol â'r canllawiau asesu arferol a nodir yn y polisïau a ganlyn:

- TMA and iCMA Policy
- End-of-module Tutor-Marked Assignment (emTMA) Policy
- End-of-Module Assessment (EMA) Policy.

Sylwch, tra bod ATMau ac ATMau diwedd modiwl yn cael eu marcio gan diwtoriaid y myfyrwyr eu hunain, caiff ADMau eu marcio gan diwtor gwahanol.

4.2 Os na all eich tiwtor farcio gwaith a gyflwynwyd yn Gymraeg, yna dylech barhau i ddilyn y drefn arferol ar gyfer cyflwyno eich gwaith drwy'r system AT/ADM arlein.

4.2.1 Bydd eich tiwtor yn cysylltu â Thîm Cymorth Myfyrwyr Cymru i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyfieithu gan wasanaeth cyfieithu proffesiynol.

4.2.2 Unwaith y bydd yr ATM wedi'i gyfieithu i'r Saesneg, yn unol â chanllawiau QAA Cymru, bydd gennych yr opsiwn i wirio bod y cyfieithiad yn adlewyrchu'ch darn gwreiddiol o waith yn gywir. Byddwn yn cysylltu â chi i wirio a ydych am ymgymryd â'r rhan hon o'r broses. Os na allwn gysylltu â chi o fewn dau ddiwrnod o dderbyn y gwaith wedi'i gyfieithu, bydd y gwaith a gyfieithwyd yn cael ei farcio heb i chi ei wirio. Os ydych yn cynnal gwiriadau, yna bydd angen i chi ddychwelyd y gwaith o fewn dau ddiwrnod gwaith i ni gysylltu â chi neu bydd yn cael ei farcio yn ei ffurf wreiddiol wedi'i chyfieithu. Mae hyn er mwyn atal oedi yn y broses farcio.

4.2.3 Unwaith y bydd y cyfieithiad (ac os yw'n berthnasol, gwirio'r cyfieithiad) wedi'i gwblhau, bydd eich tiwtor yn marcio'r gwaith yn Saesneg ac yn ei ddychwelyd atoch yn unol â chanllawiau a gweithdrefnau asesu safonol.

4.2.4 Lle bo angen cyfieithiad, nifer y geiriau o’r ddogfen a gyflwynwyd yn wreiddiol yw'r ffigur sy'n berthnasol, nid nifer unrhyw fersiwn a gyfieithwyd o'r gwaith hwn.

## 5. Sefyll arholiad yn Gymraeg

5.1 Os ydych wedi dweud wrthym yr hoffech sefyll eich arholiad yn Gymraeg, byddwch yn gallu derbyn eich cwestiynau arholiad (sgript yr arholiad) yn Gymraeg. Gallwch wneud hyn pan fyddwch yn cofrestru, neu ar unrhyw adeg hyd at ddau fis cyn dyddiad yr arholiad. Gallwch wneud hyn drwy e-bostio cymorth-cymru@open.ac.uk gydag **Ymgais am sgript arholiad Cymraeg** cais yn y maes pwnc, a nodi:

- Eich enw
- Côd y modiwl

- Amser, dyddiad a lleoliad eich arholiad.

Gallwch hefyd gyflwyno eich atebion arholiad yn Gymraeg heb roi gwybod i'r brifysgol ymlaen llaw, ond bydd y sgript arholiad a roddir i chi yn ei hiaith wreiddiol os gwnewch hyn.

5.2 Bydd eich gwaith yn cael ei farcio gan siaradwr Cymraeg lle bynnag y bo'n bosibl. Lle nad yw'n bosibl, caiff eich gwaith ei gyfieithu gan wasanaeth cyfieithu proffesiynol a'i farcio, yn Saesneg, gan siaradwr di-Gymraeg.

5.3 Unwaith y bydd yr arholiad wedi'i gyfieithu i'r Saesneg, yn unol â chanllawiau QAA Cymru, bydd gennych yr opsiwn i wirio bod y cyfieithiad yn adlewyrchu'ch darn gwreiddiol o waith yn gywir. Byddwn yn cysylltu â chi i wirio a ydych am ymgymryd â'r rhan hon o'r broses. Os na allwn gysylltu â chi o fewn dau ddiwrnod o dderbyn y gwaith wedi'i gyfieithu, bydd y gwaith a gyfieithwyd yn cael ei farcio heb i chi ei wirio. Os ydych yn cynnal gwiriadau, yna bydd angen i chi ddychwelyd y gwaith o fewn dau .ddiwrnod gwaith i ni gysylltu â chi neu bydd yn cael ei farcio yn ei ffurf wreiddiol wedi'i chyfieithu. Mae hyn er mwyn atal oedi yn y broses farcio.

5.4 Byddwch yn derbyn canlyniad eich modiwl erbyn y dyddiad a roddir ar StudentHome.

5.5 Os hoffech drafod y manylion ynghylch sut y mae eistedd arholiad yn y Gymraeg yn gweithio, cysylltwch â'r Tîm Cefnogi Myfyrwyr Cymru.

## 6. Gweithredu a gorfodi'r weithdrefn

6.1 Os byddwch yn rhoi gwybod i ni eich bod yn bwriadu cyflwyno gwaith i'w asesu yn Gymraeg, bydd Y Brifysgol Agored yn cofnodi'r wybodaeth hon yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Byddwn yn cadw'r wybodaeth hon er mwyn hwyluso'r broses weinyddu ar gyfer marcio gwaith cyfrwng Cymraeg ac i fonitro nifer y myfyrwyr sy'n cyflwyno eu gwaith yn Gymraeg. Mae mwy o wybodaeth am y ffordd mae'r Brifysgol Agored yn defnyddio data personol myfyrwyr ar gael yn yr Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr.

6.2 Bydd Y Brifysgol Agored yn goruchwylio'r broses gyfieithu a marcio er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei farcio o fewn y terfynau amser gofynnol ac nad ydych o dan anfantais mewn unrhyw ffordd o ganlyniad i'r broses.

## 7. Diffyg cydymffurfiad

7.1 Os byddwch yn cael unrhyw broblemau mewn perthynas â'r weithdrefn hon, dylech gysylltu â'ch Tîm Cymorth Myfyrwyr er mwyn eu datrys. Os byddwch yn cael problemau o hyd ar ôl cysylltu â'r Tîm Cymorth Myfyrwyr, yna dilynwch Weithdrefn gwyno'r Brifysgol Agored neu os yw eich cwyn yn ymwneud yn benodol â Safonau'r Gymraeg, yna dilynwch y drefn a amlinellir yn adran 8.2 isod).

7.2 Mae gennym hefyd drefn gwyno benodol ar gyfer cwynion yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg. Mae manylion y drefn hon ar gael yn y ddogfen "Safonau'r Gymraeg – Delio â Chwynion a Sylwadau".

7.3 Gallwch apelio i Gomisiynydd y Gymraeg os byddwch o'r farn nad yw'r Brifysgol Agored yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

## 8. Grantiau a chefnogaeth ariannol

8.1 Gall myfyrwyr neu ddarpar fyfyrwyr gyflwyno ceisiadau am grantiau neu gymorth ariannol drwy gyfrwng y Gymraeg, ac ni chaiff ceisiadau eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a gyflwynir yn Saesneg.

8.2 Nid oes grantiau na chymorth ariannol ar gael ar hyn o bryd sy'n ymwneud yn benodol ag astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

8.3 Gall myfyrwyr hefyd ddatgan eu bwriad i gyflwyno gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o gais am grant neu gymorth ariannol.

## Ymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwisiant yn y Brifysgol Agored

Mae polisïau'n cynnwys holl Fyfyrwyr, Dysgwyr, Ymholwyr a Chyn-fyfyrwyr y Brifysgol Agored, waeth beth fo'u hoedran, statws sifil, dibyniaeth neu statws gofal, profiad gofal, anabledd, statws teuluol, rhywedd, hunaniaeth rhywedd, ailbennu rhywedd, statws priodasol, priodas a phartneriaethau sifil , aelodaeth o gymuned Teithwyr, barn wleidyddol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, cefndir economaidd-gymdeithasol, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu statws aelodaeth o undeb llafur.

## Adrodd yn Ddiogel

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i greu amgylchedd amrywiol a chynhwysol lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu trin ag urddas a pharch.
Ni fydd gwahaniaethu anghyfreithlon o unrhyw fath ar draws ein Prifysgol yn cael ei oddef. Mae Adrodd yn Ddiogel ar gael trwy adnodd ar-lein sy'n annog staff, myfyrwyr, dysgwyr ac ymwelwyr i adrodd am achosion o ymosod, bwlio, aflonyddu, trosedd casineb neu aflonyddu rhywiol. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am yr hyn y gallwch ei wneud os bydd y digwyddiadau hyn yn digwydd i chi, neu i rywun rydych yn ei adnabod, a ble y gallwch ddod o hyd i gymorth.

# Rhestr Termau

## Aseiniad diwedd modiwl (ADM (EMA))

Ar nifer o fodiwlau, mae'n rhaid i chi weithio'n annibynnol i lunio darn estynedig o waith yn hytrach na sefyllfa arholiad ar ddiwedd eich cyfnod astudio. Er mwyn cyfeirio atynt yn hawdd, cyfeirir at y traethodau, prosiectau, portffolios, traethodau hir, asesiadau ac ati hyn yn gyffredinol fel aseiniadau diwedd modiwl (EMAs).

## Aseniad Tiwtor yn Marcio (ATM (TMA))

Asesiad parhaus yw'r enw a roddir ar y set o aseiniadau y byddwch yn eu cwblhau yn ystod modiwl. Y tasgau asesu parhaus mwyaf cyffredin yw Aseiniadau a Farciwyd gan Diwtor (TMAs). Fel rhan o'r fethodoleg addysgu ar y rhan fwyaf o fodiwlau, mae'n rhaid i chi gyflwyno aseiniadau ysgrifenedig i'ch tiwtor. Traethodau neu gwestiynau atebion byr yw TMAs fel arfer, er y gallant hefyd gynnwys mathau eraill o dasgau.

## Aseiniad Tiwtor yn Marcio (ATM (TMA)) diwedd modiwl

Gall y tasgau asesedig terfynol ar fodiwl fod yn arholiad, Asesiad Diwedd Modiwl (EMA) neu Aseiniad Tiwtor yn Marcio (emTMA) ar ddiwedd modiwl. Lle nad oes gan fodiwl arholiad neu EMA, bydd y TMA olaf ar y modiwl hwnnw yn cael ei ddosbarthu fel emTMA.

TMA diwedd modiwl (gweler isod).

## Comisiynydd y Gymraeg

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a gosod safonau ar sefydliadau.

## Hysbysiad Cydymffurfio

Mae 'hysbysiad cydymffurfio' yn ddogfen a gyflwynir gan Gomisiynydd y Gymraeg i amlinellu'r safonau (yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) y mae'n rhaid i sefydliadau gydymffurfio â nhw.

## Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ddeddfwriaeth sy'n rhoi statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yng Nghymru. Golyga hyn na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac er mwyn cyflawni hyn mae'r mesur yn gosod dyletswyddau ar sefydliadau cyhoeddus i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r safonau ymddygiad hyn wedi'u nodi yn Safonau'r Gymraeg.

### Polisiau asesu

Rhestr o ddogfenau a luniwyd gan Y Brifysgol Agored sy'n amlinellu ein polisïau mewn perthynas â'r tasgau asesu gwahanol y bydd yn rhaid i chi eu cwblhau o bosibl ar gyfer eich modiwl, ac sy'n esbonio'r canlyniadau a/neu'r canlyniad modiwl a gewch ar ddiwedd pob un.

### Safonau'r Gymraeg

Mae'r rhain yn ofynion cyfreithiol rwymol sy'n berthnasol i sefydliadau penodol (gan gynnwys Y Brifysgol Agored) sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru. Mae Safonau'r Gymraeg yn esbonio'r disgwyliad i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd gwahanol, ac yn sylfaen i'r Hysbysiadau Cydymffurfio a gyflwynir i bob sefydliad perthnasol.

### StudentHome

Gwefan sy'n brif ffynhonnell o wybodaeth i fyfyrwyr mewn perthynas ag astudio yn Y Brifysgol Agored.

### Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA)

Mae'r ASA yn asiantaeth ansawdd sy'n rhoi cymorth a chyngor i ddarparwyr addysg uwch i wella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

## Dogfennaeth Gysylltiedig

The following documentation provides further information relating to elements of the policy, but the policy can be read independently:

- Assessment Policies (ar gael yn Saesneg yn unig)
- TMA and iCMA Policy (ar gael yn Saesneg yn unig)
- End-of-module Tutor-Marked Assignment (emTMA) Policy (ar gael yn Saesneg yn unig)
- End-of-Module Assessment (EMA) Policy (ar gael yn Saesneg yn unig)
- Exam Policy (ar gael yn Saesneg yn unig)

- Canllawiau i Ddarparwyr Addysg Uwch ar Arfer Effeithiol wrth Arholi ac Asesu yn y Gymraeg yng Nghymru (Medi 2019)
- Research Degrees Regulations (Rheoliadau Graddiau Ymchwil - ar gael yn Saesneg yn unig)
- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017
- Hysbysiad Cydymffurfio Y Brifysgol Agored i Safonau'r Gymraeg
- Y Brifysgol Agored a'r iaith Gymraeg
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Ffurflen gais cadw modiwlau i fyfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg

## Eglurhad pellach

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y cynnwys a ddarperir yn y ddogfen hon a sut i'w ddehongli, cysylltwch â'ch Tîm Cymorth i Fyfyrwyr trwy StudentHome.

Fel arall, gallwch gysylltu â'ch Tîm Cymorth i Fyfyrwyr drwy'r opsiwn 'Contact Us' ar yr Help Centre os ydych yn fyfyriwr gyda'r Brifysgol Agored ar hyn o bryd.

I wirio'r cyfeiriad post diweddaraf a manylion cyswllt eraill neu os hoffech gael gwybod mwy am ein hamseroedd ymateb mwyaf diweddar ar gyfer derbyn ac anfon gohebiaeth drwy'r post i'r Brifysgol Agored, gweler y dudalen Open University Offices.

### Adborth

Os oes gennych unrhyw sylwadau am y ddogfen bolisi hon a sut y gellid ei gwella, anfonwch y rhain i: student-policy-compliance@open.ac.uk.

---

### Crynodeb o'r newidiadau arwyddocaol ers y fersiwn ddiwethaf

Y newidiadau arwyddocaol ers fersiwn flaenorol y polisi hwn (Fersiwn 1.2):

a) mae adran 4.2 wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r broses gyfredol ar gyfer cyfieithu gwaith a aseswyd.

b) Ychwanegwyd Adran 8 i drafod dull y Brifysgol Agored at grantiau a chymorth ariannol drwy gyfrwng y Gymraeg.

c) Mae'r polisi bellach yn berthnasol i holl fyfyrwyr y Brifysgol Agored, nid yn unig y rhai sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

## Polisïau a ddisodlir gan y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn disodli'r fersiwn flaenorol (1.2) o'r polisi "Asesiad trwy gyfrwng y Gymraeg".